

# Cariad Duw, cariad sanctaidd

*“...a dywedasant wrth y mynyddoedd a’r creigiau, ‘Syrthiwech arnom, a chuddiwech ni rhag wyneb yr hwn sy’n eistedd ar yr orsedd a rhag digofaint yr Oen.” (adn. 16)*

## Beth am ddarllen Datguddiad 6:1–17 ac yna myfyrio

Yr ydym yn dod yn awr at wirionedd arall sydd wedi ei guddio mewn rhai rhannau o’r Eglwys gyfoes, ac un sydd yn dal cysylltiad agos â’r hyn yr ydym wedi ei ystyried dros y diwrnodau diwethaf – lliid Duw. Mae hon yn athrawiaeth sydd yn peri anesmwythyd hyd yn oed i Gristnogion, ac eto, ni ddywedir fawr amdani yn yr eglwysi. Mae’r rhai sydd yn ymateb yn negyddol i’r gwirionedd hwn yn dymuno edrych yn hytrach ar gariad Duw. Yr hyn y maent yn ei anghofio yw, nid yn unig fod Duw yn gariad, ond yn gariad sanctaidd. Yn ei fydsawd, bydd rhaid cael tâl am bob dyled, ac fe olyga hyn fod pob calon anedifeiriol i gael ei barnu.

Dywedodd un gweinidog amlwg yn ddiweddar nad oedd yn credu yn Nuw yr Hen Destament oedd yn eistedd ar ben Mynydd Seion yn gweiddi mewn dicter gan gondemnio. Roedd yn well ganddo gredu yn Iesu oedd, yn ei farn ef, yn tynnu pobl ato trwy rym ei gariad. Anghofiodd, neu, yn hytrach, fe fyynnodd anghofio’r gwirionedd fod yr Un yr oedd ef yn ei gymharu â Duw yr Hen Destament wedi cyfeirio at ddicter Duw yn y termau mwyaf clir. Mae hon yn un enghraifft. “Mae’n well i chi fyned i mewn i deyrnas Dduw hefo un llygad nag i gael dau lygad a chael eich taflu i uffern lle nad yw’r pry byth yn marw a lle na fydd fflamau’r tân yn diffodd.” (Marc 9:47–48) Mae yna lawer o adnodau yn y Testament Newydd sydd yn cyfeirio at ddicter Duw, a does yna’r un enghraifft yn fwy ofnadwy na’r adnodau sydd o’n blaen heddiw, adnodau sy’n cyfeirio at y ffaith fod pobl yn y diwedd yn galw ar y mynyddoedd ac yn galw ar y creigiau i syrthio arnyn nhw er mwyn eu cuddio rhag dicter yr Oen. A yw dicter Duw yn rhywbeth sy’n cael ei ddysgu yn gyson yn eich eglwys mewn ffordd gytbwys? Os nad yw, yna efallai bod y meddylfryd Philistaidd wedi meddiannu’r eglwys.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 3:1–10; Ioan 3:36

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw neges Ioan Fedyddiwr?
2. Beth sy’n digwydd i’r bobl hynny sydd yn gwrthod y Mab?

## Gweddi

O Dduw, dyro i ni’r ddealltwriaeth a’r hyder i ystyried yr holl Ysgrhythurau, nid y rhannau hynny sy’n apelio atom yn unig. Yr ydym yn ymwybodol iawn o rwyddineb osgoi’r pethau hynny sydd yn anffafriol yn ein golwg. Yn enw Iesu. Amen.